

**Ofcom**

sicrhau bod cyfathrebiadau'n  
**gweithio i bawb**

## Radio Cymunedol: polisi trwyddedu a thechnegol i'r dyfodol

Dyddiad cyhoeddi:

Datganiad  
28 Ebrill 2017

# Gair am y ddogfen hon

Mae 250 o orsafoedd radio cymunedol wedi'u trwyddedu gan Ofcom yn darlledu mewn lleoliadau ledled y DU. Gwasanaethau bach dielw yw'r gorsafoedd hyn sy'n dod ag amrywiaeth o fuddion i'r cymunedau y maent yn eu targedu, ac maent yn cael eu rhedeg gyda chymorth gwirfoddolwyr.

Mae'r datganiad hwn yn nodi ein penderfyniad i gynnal pedwerydd cylch trwyddedu ar gyfer gwasanaethau radio cymunedol, a sut y byddwn yn ceisio sicrhau y bydd ein prosesau ar gyfer dyfarnu trwyddedau yn gynt ac yn fwy penodol nag mewn cylchoedd trwyddedu blaenorol.

Rydym hefyd wedi gwneud newidiadau i'n polisi technegol mewn perthynas â'r amleddau a'r ardaloedd darlledu ar gyfer y gwasanaethau hyn er mwyn ystyried gofynion gorsafoedd unigol, a all fod yn wahanol.

Yn olaf, mae'r datganiad yn nodi ein safbwynt ar flaenoriaethu ein gwaith yn y dyfodol ar radio cymunedol.

# Cynnwys

## Adran

- 1 Crynodeb gweithredol
- 2 Y Cefndir
- 3 Trwyddedu gwasanaethau newydd
- 4 Newidiadau i'n polisi technegol
- 5 Blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol

## Tudalen

- 1
- 4
- 7
- 12
- 20

## Adran 1

# Crynodeb gweithredol

## Radio cymunedol yn y DU

- 1.1 Ar hyn o bryd, mae 250 o orsafoedd radio cymunedol wedi'u trwyddedu gan Ofcom yn darlledu mewn lleoliadau ledled y DU. Gwasanaethau bach di-elw yw'r gorsafoedd hyn sy'n dod ag amrywiaeth o fuddion i'r cymunedau y maent yn eu targedu, ac maent yn cael eu rhedeg gyda chymorth gwirfoddolwyr.
- 1.2 Mae Ofcom yn dod i derfyn ei drydydd cylch o drwyddedu gorsafoedd radio cymunedol a byddai'n hoffi cynnig rhagor o drwyddedau lle mae sbectrwm addas ar gael. Gwnaethom ymgynghori'n ddiweddar ar gynnig i gynnal pedwerydd cylch sy'n fyrrach a mwy penodol na chylchoedd blaenorol. Roedd ein hymgyngoriad yn gofyn am sylwadau ar y ffordd y gallem gynnal y pedwerydd cylch trwyddedu hwn. Gwnaethom hefyd wahodd darpar ymgeiswyr i gyflwyno datganiadau o ddiddordeb ar gyfer trwyddedau newydd, i'n helpu i fesur lefel y diddordeb ac i bennu lleoliadau lle gallem wahodd ymgeiswyr i wneud cais am drwyddedau newydd.
- 1.3 Roeddem hefyd wedi cael adborth gan randdeiliaid am ein polisi technegol mewn perthynas ag amleddau ac ardaloedd darlledu ar gyfer trwyddedau radio cymunedol. Roedd rhai o'r gorsafoedd a'r ymgeiswyr presennol yn teimlo nad oedd yn rhoi digon o sylw i anghenion penodol y gorsafoedd unigol, a all fod yn wahanol. Roedd ein hymgyngoriad yn ystyried sut y gallem newid ein polisi i fynd i'r afael â'r mater hwn.
- 1.4 Yn olaf, roedd ein hymgyngoriad yn gofyn barn am ba agweddau ar ein gwaith radio cymunedol y dylem roi blaenoriaeth iddynt ar ôl i'n cylch trwyddedu presennol ddod i ben.

## Ymatebion rhanddeiliaid

- 1.5 Cawsom 43 ymateb i'r cwestiynau yn yr ymgynghoriad, oddi wrth amrywiaeth o randdeiliaid. Roedd yr ymatebion hyn yn adlewyrchu barn rhanddeiliaid ar y tri maes yr oeddem wedi gofyn barn amdanynt, yn ogystal â rhai safbwyntiau ychwanegol. Adlewyrchir y sylwadau a gawsom gan randdeiliaid yn Adran 3 i 5 y ddogfen hon. Hefyd, derbyniasom 98 datganiad o ddiddordeb oddi wrth ymgeiswyr am drwyddedau newydd.

## Ein penderfyniad

### Trwyddedu gwasanaethau radio cymunedol yn y dyfodol

- 1.6 Oherwydd lefel y galw am drwyddedau a ddangoswyd gan nifer y datganiadau o ddiddordeb a dderbyniwyd gennym, rydym wedi penderfynu cynnal cylch arall o drwyddedu radio cymunedol analog.
- 1.7 Yn sgil yr adborth i'r ymgynghoriad, rydym wedi penderfynu gwahodd ymgeiswyr i wneud cais cyn cynnal gwaith cynllunio amleddau, gyda'r bwriad o gyflymu'n prosesau ar gyfer rhoi trwyddedau newydd.

- 1.8 Rydym felly wedi penderfynu mynd ati i wahodd ymgeiswyr i ymgeisio am wasanaethau radio cymunedol newydd yn yr holl ardaloedd rydym wedi derbyn datganiadau o ddiddordeb ar eu cyfer.
- 1.9 Byddwn yn:
- blaenoriaethu'r lleoliadau hynny nad ydynt yn gorgyffwrdd â gwasanaeth radio cymunedol sydd eisoes yn bodoli, drwy wahodd ymgeiswyr i wneud cais yn yr ardaloedd hynny yn awr; ac
  - yn ddiweddarach eleni, gwahodd cwmnïau i ymgeisio yn yr ardaloedd lle mae o leiaf un gwasanaeth radio cymunedol eisoes yn bodoli.
- 1.10 Bydd gwahoddiad i wneud cais am drwyddedau newydd yn yr ardaloedd cyntaf yn cael ei gyhoeddi gyda'r datganiad hwn. Bydd ffurflen gais a nodiadau canllaw wedi'u diweddarau yn cael eu cyhoeddi ddydd Gwener nesaf, 5 Mai.

### **Newidiadau i'n polisi technegol**

- 1.11 Yn ein hymgyngoriad, roeddem yn cynnig newidiadau i'n polisi technegol a ddefnyddir gennym mewn perthynas ag amleddau ac ardaloedd darlledu ar gyfer trwyddedau radio cymunedol, er mwyn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd a hefyd rhoi rhywfaint o arweiniad ar ardaloedd darlledu nodweddiadol. Ond, dywedodd sawl ymatebydd fod y polisi diwygiedig yn cyfyngu'n ormodol.
- 1.12 Yn sgil yr ymatebion rydym wedi'u derbyn, rydym wedi penderfynu diwygio ein polisi technegol fel nad yw bellach yn cyfeirio at gyfyngiadau i radiws darlledu a phŵer trawsyrru gwasanaethau radio cymunedol. Bydd hyn yn ein galluogi i fabwysiadu dull gweithredu mwy hyblyg ac i ystyried ceisiadau am drwyddedau newydd ar gyfer ardaloedd ehangach, lle bydd hynny'n gwasanaethu'r gymuned darged yn well a phan fo hynny'n bosibl yn dechnegol.
- 1.13 Rydym hefyd wedi gwneud newidiadau i'n polisi technegol fel y mae'n berthnasol i geisiadau am welliannau i ddarpariaeth ac estyniadau i'r ardal ddarlledu ar gyfer trwyddedeion presennol. Yng nghyswllt ceisiadau i ymestyn yr ardal ddarlledu, byddwn yn defnyddio chwe "mater craidd":
- a oes gan yr ardal y mae'r trwyddedai yn dymuno ymestyn iddi berthynas â'r ardal drwyddedig bresennol, neu a oes tebygrwydd rhyngddynt (e.e. a fyddai ymestyn yn briodol o gofio am gymuned darged ddatganedig gorsaf);
  - a ellid credu'n rhesymol fod y cynnydd yn yr ardal drwyddedig yn "sylweddol";
  - a oes unrhyw amgylchiadau eithriadol a fyddai'n cyfiawnhau cynnydd y gellid credu'n rhesymol ei fod yn "sylweddol";
  - os oes angen adnoddau amledd ychwanegol i hwyluso'r estyniad a geisir, a oes adnoddau addas ar gael;
  - effaith y newid (h.y. trosglwyddyddion ategol, neu'r pŵer sydd gan drosglwyddydd presennol i ymestyn y ddarpariaeth i'r ardal estynedig honno) ar argaeledd yr amleddau dros ardal ehangach (o lawer);
  - yr effaith bosibl ar wasanaethau radio masnachol a chymunedol trwyddedig eraill.

## Blaenoriaethau ar gyfer gwaith yn y dyfodol

- 1.14 Ar sail ymatebion rhanddeiliaid, rydym wedi penderfynu addasu ein blaenoriaethau arfaethedig ar gyfer gwaith i'r dyfodol.
- 1.15 Ein blaenoriaeth gyntaf fydd cynnal cylch trwyddedu newydd, fel y nodwyd uchod. Bydd gwahoddiad i wneud cais am drwyddedau yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r datganiad hwn, gan ddod i ben ddydd Iau 27 Gorffennaf 2017 am 3pm.
- 1.16 Unwaith y bydd y cyfnod gwahodd ar gyfer y cylch trwyddedu newydd wedi cau, byddwn yn ystyried ceisiadau gan wasanaethau cyfredol am welliannau i'r ddarpariaeth (*coverage improvements*). Ceisiadau oddi wrth orsafoedd sy'n dioddef lefelau sylweddol o ymyriant fydd yn cael y flaenoriaeth uchaf, wedyn ceisiadau oddi wrth orsafoedd sydd â derbyniad gwael yn eu hardal ddarlledu.
- 1.17 Ar ôl hynny, byddwn yn ystyried ceisiadau i ymestyn yr ardal ddarlledu ar gyfer gwasanaethau presennol.
- 1.18 Erbyn 2018, rydym yn disgwyl y bydd fframwaith trwyddedu ar waith a fydd yn ein galluogi i ddechrau trwyddedu gwasanaethau DAB ar raddfa fach.

## Adran 2

# Y Cefndir

## Pam y gwnaethom ymgynghori

- 2.1 Mae gorsafoedd radio cymunedol yn rhoi amrywiaeth o fuddion i'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu a hoffem gynnig rhagor o drwyddedau newydd. Cynhaliwyd ein cylch trwyddedu diwethaf, a ddechreuodd yn 2011, ar sail rhanbarth a bydd yn cael ei gwblhau yn ystod tymor y Gwanwyn 2017. Cyn cychwyn ar gylch trwyddedu arall, roeddem yn awyddus i ystyried y ffordd orau o wneud hyn, gan ystyried lefel y galw oddi wrth ddarparu ymgeiswyr a cheisiadau gan drwyddedeion i wneud gwelliannau i'w darpariaeth a/neu ymestyn eu hardaloedd darlledu.

## Trwyddedu gwasanaethau newydd: y fframwaith cyfreithiol

- 2.2 Mae trwyddedau radio cymunedol yn cael eu hysbysebu a'u dyfarnu yn unol â Deddf Darlledu 1990, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Radio Cymunedol 2004. Pan fyddwn yn ystyried rhoi trwydded radio cymunedol, o dan y ddeddf hon mae'n rhaid i ni wahodd cwmnïau i wneud ceisiadau a'n bod hefyd yn pennu unrhyw ardaloedd neu leoliadau lle na cheir gwneud dim ceisiadau ar eu cyfer.<sup>1</sup>

## Datganiadau o ddiddordeb ar gyfer trwyddedau newydd

- 2.3 Fel rhan o'r Ymgynghoriad hwn, gwnaethom wahodd ymgeiswyr posibl i roi ychydig o wybodaeth amdanynt eu hunain a'u dyheadau, i'n helpu i fesur y diddordeb mewn trwyddedau radio cymunedol newydd. Gwnaethom ofyn am fanylion cyswllt, yr ardal y mae'r ymgeisydd yn dymuno darlledu ynddi, disgrifiad byr o'r gymuned y mae'n dymuno ei gwasanaethu; a lleoliad arfaethedig y trosglwyddydd (i'n helpu i wirio a oes amledd ar gael).

## Amcanion ar gyfer trwyddedu rhagor o wasanaethau

- 2.4 Gwnaethom lunio set o amcanion ar gyfer trwyddedu rhagor o wasanaethau radio cymunedol analog. Gwnaethom ddweud ein bod am gynnal proses sy'n fyrrach, yn fwy penodol ac yn gyflymach na'r cylchoedd blaenorol, ac yn cyflawni cynifer o'n hamcanion â phosibl. Dywedasom ein bod am anelu at wneud y canlynol:
- lle bo modd, dod â gwasanaethau radio cymunedol i gymunedau sydd heb eu gwasanaethu'n ddigonol ac sydd am eu cael, a darparu manteision cymdeithasol (buddion cymunedol) i'r cymunedau hynny;
  - cynnal proses drwyddedu effeithlon ac amserol: ni ddylai ymgeiswyr orfod disgwyl yn rhy hir i ymgeisio ac, wedi iddynt ymgeisio, ni ddylent aros yn rhy hir am benderfyniad;

---

<sup>1</sup> Adran 104 o Ddeddf Darlledu 1990 fel y'i diwygiwyd gan Erthygl 3 o Orchymyn Radio Cymunedol 2004.

- trefnu proses drwyddedu deg a thryloyw: dylai pob ymgeisydd fod yn hyderus bod ei gynigion yn cael eu hystyried a'u barnu yn yr un ffordd â chynigion pawb arall; a
- ceisio paru'r galw am drwyddedau â'r amleddau FM sydd ar gael.

2.5 Yn ein hymgyngoriad, gwnaethom bennu pedwar opsiwn ar gyfer diwygio ein prosesau trwyddedu, y gwnaethom eu hasesu drwy gyfeirio at ein hamcanion. Mae sylwadau rhanddeiliaid ar yr opsiynau hyn a'n casgliadau i'w cael yn adran 3.

## Ein polisi technegol

2.6 Ni chafwyd bron dim newid yn ein polisi parthed agweddau technegol trwyddedau radio cymunedol, - yr amleddau sydd ar gael a'r ardaloedd darlledu - <sup>2</sup> ers inni ddechrau trwyddedu gwasanaethau radio cymunedol yn 2005. Dywed:

- Fel arfer bydd gorsafodd radio cymunedol ar FM mewn ardaloedd trefol yn cael eu trwyddedu ar gyfer radiws darlledu o hyd at 5km.
- Yn achos gwasanaethau 'cymunedau buddiant' trefol, lle mae'r gymuned a wasanaethir mewn ardal sydd â radiws o fwy na 5km, dim ond amleddau AM a ddyrennir fel arfer.
- Mewn ardaloedd gwledig lle mae mwy o amleddau FM addas ar gael (rhannau o Gymru a'r Alban, er enghraifft) a radiws darlledu o fwy na 5km yn cael ei gynnig, gallem drwyddedu gwasanaethau o'r fath ar FM.
- Mewn ardaloedd gwledig lle mae argaeledd gwael o ran amleddau FM addas a radiws darlledu o fwy na 5km yn cael ei gynnig, dim ond amleddau AM a gaiff eu dyrannu.

2.7 Gwnaethom benderfynu mai'r terfyn pŵer uchaf arferol fyddai 25 wat (y plân). Roeddem o'r farn bod y lefel pŵer hon yn ddigonol, yn y rhan fwyaf o achosion, i ddarparu ardal ddarlledu â radiws darlledu o tua 5km. Yn y rhan fwyaf o lawer o achosion cafwyd bod hyn yn wir. Yn ogystal, mae cadw at feincnod ar gyfer lefel y pŵer wedi symleiddio'r broses gynllunio, gan olygu bod modd cynllunio rhagor o orsafoedd, ac yn eithaf cyflym. Roedd hefyd yn golygu bod angen llai o antenau trawsyrro â phatrymau cyfeiriadol cymhleth, a all gynyddu'r gost.

2.8 O'r herwydd, mae mwyafrif y gorsafodd radio cymunedol wedi'u trwyddedu i weithredu ar bŵer o 50 wat ar y mwyafrif (h.y. 25 wat y plân) o un safle trosglwyddydd a chydag un amledd FM. Yr eithriadau a gafwyd yw:

- Lle mae'r gymuned a wasanaethir mewn lleoliad gwledig lle mae'r boblogaeth ar wasgar, a lle roedd digon o amleddau i ganiatáu eu trwyddedu i weithredu ar bŵer uwch a/neu i ddefnyddio mwy nag un amledd (fel y nodwyd yn ein polisi uchod).
- Lle roedd yr ymyriant o'r tu allan ar yr amledd a oedd ar gael yn annerbyniol o uchel a dim amledd arall ar gael.
- Lle rhoddwyd trwydded i gwmpasu ardal na ellid ei gwasanaethu â phŵer pelydru o 25 wat y plân (oherwydd materion yn ymwneud â'r safle a'r dirwedd

<sup>2</sup> [https://www.ofcom.org.uk/\\_data/assets/pdf\\_file/0018/54621/analogue-coverage-policy.pdf](https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0018/54621/analogue-coverage-policy.pdf)



leol fel arfer), a lle na fyddai atebion eraill, fel cynyddu uchder yr antena, yn gwella'r ddarpariaeth yn ddigonol.

- 2.9 Nid ydym wedi trwyddedu pwerau uwch lle byddai hynny wedi achosi ymyriant i wasanaethau trwyddedig presennol.
- 2.10 Mae'r lefel pŵer uchaf cyffredinol o 25 wat y plân ar gyfer mwyafrif y gorsafoedd radio cymunedol wedi bod yn gynt ac yn haws i ni ei weinyddu na dull mwy hyblyg, ond mae'n bosibl na fydd yn rhoi darpariaeth o'r un ansawdd ym mhob achos ac mae rhai gorsafoedd presennol ac ymgeiswyr yn teimlo nad yw'n rhoi digon o sylw i anghenion gorsafoedd unigol, a all fod yn wahanol.
- 2.11 Rydym wedi cael adborth ar y problemau cyffredin y mae gorsafoedd wedi dod ar eu traws a'r rhesymau pam y byddant efallai am newid eu hardal ddarlledu. Mae'r rhain yn cynnwys problemau gydag ymyriant o'r tu allan, dewis safle gwael ar gyfer trosglwyddydd, derbyniad gwael mewn rhai rhannau o'r ardal ddarlledu, newidiadau yn y ddemograffeg leol, a cheisiadau i ddarlledu i ardal ehangach na'r hyn a ganiateir gan y drwydded bresennol.
- 2.12 Oherwydd y pryderon hyn, gwnaethom benderfynu bod yr amser yn briodol i ailystyried ein polisi technegol. Mae sylwadau rhanddeiliaid ar y newidiadau yr ydym wedi'u cynnig i'n polisi technegol a'n casgliadau i'w cael yn adran 4.

## Adran 3

# Trwyddedu gwasanaethau newydd

## Opsiynau ar gyfer trwyddedu gwasanaethau newydd

- 3.1 Gwnaethom ddweud yn yr ymgynghoriad y byddem yn hoffi cylch trwyddedu byr, penodol ar gyfer radio cymunedol ond mai dim ond cyfnod byr o ryw flwyddyn a oedd gennym ar gyfer gwneud hyn.
- 3.2 Gwnaethom gynnig mabwysiadu dull newydd ar gyfer y cylch trwyddedu nesaf gan yr oeddem o'r farn y byddai'r dulliau a ddilynwyd gennym yn flaenorol yn cymryd sawl blwyddyn i'w cwblhau. Dywedasom y byddem yn hoffi cadw unrhyw gylch newydd yn fyr (i sicrhau y gallwn symud i waith trwyddedu DAB ar raddfa fach pan fydd angen) a hawdd ei reoli (gyda llai o geisiadau na chylchoedd blaenorol).
- 3.3 Gwnaethom gynnal yr ymgynghoriad i gael barn am y dull y dylem ei fabwysiadu. Gwnaethom hefyd ofyn am 'datganiadau o ddiddordeb' gan ddarpar ymgeiswyr i'n helpu i ddeall yn well y galw tebygol am drwyddedau newydd.
- 3.4 Yn yr ymgynghoriad, gwnaethom nodi pedwar opsiwn trwyddedu posibl ar gyfer y cylch byr hwn:
  - a) Gwahodd ceisiadau dim ond o ardaloedd lle nad oes gwasanaeth radio cymunedol ar hyn o bryd;
  - b) Gwahodd ceisiadau dim ond o ardaloedd lle mae mwy o amleddau FM ar gael;
  - c) Gwahoddiadau wedi'u targedu: gwahodd cwmnïau i wneud cais am leoliadau lle mae gennym dystiolaeth o alw (gan ddefnyddio 'datganiadau o ddiddordeb', lle mae grŵp o ymgeiswyr posibl wedi rhoi gwybodaeth i ni am ei gynigion gan gynnwys lleoliad y gwasanaeth arfaethedig) ar ôl gwirio bod amledd FM addas ar gael;
  - d) Gwahodd ceisiadau o ardaloedd lle mae amledd ar gael erbyn hyn (e.e. wedi i orsaf ildio ei thrwydded).

## Y dull trwyddedu y mae Ofcom yn ei ffafrio

- 3.5 Fel y nodwyd yn yr ymgynghoriad, y dull trwyddedu yr oeddem yn ei ffafrio oedd gwahoddiadau wedi'u targedu (opsiwn trwyddedu (c) uchod).

## Trwyddedu gwasanaethau radio cymunedol newydd: ymatebion i'r ymgynghoriad

- 3.6 Derbynasom 43 ymateb i'n hymgyngoriad ac isod mae'r sylwadau a gawsom ar bob un o'r pedwar opsiwn y gwnaethom eu nodi ar gyfer y cylch trwyddedu newydd. Opsiwn (c): gwahoddiadau wedi'u targedu (y dull y mae Ofcom yn ei ffafrio).
- 3.7 Roedd mwyafrif yr ymatebion (31) o blaid Ofcom yn gwahodd cwmnïau i wneud cais am drwyddedau radio cymunedol newydd, ac roedd llawer o blaid hoff opsiwn Ofcom o gylch byr o drwyddedu radio cymunedol, ar gyfer lleoliadau lle rydym yn

gwybod bod galw oddi wrth ddarpar ymgeiswyr (ar sail y datganiadau o ddiddordeb rydym wedi'u derbyn).

- 3.8 Mae'r Gymdeithas Cyfryngau Cymunedol (CMA) yn sefydliad o aelodau sy'n cynrychioli buddiannau'r sector cyfryngau cymunedol gyda'r Llywodraeth, diwydiant a chyrrff rheoleiddio. Dywedodd fod cefnogaeth eang i'r cynnig ymysg aelodau CMA. Teimlai Rhwydwaith Radio Cymunedol Cymru a Phwyllgor Cyngori Cymru Ofcom fod proses fer fwy penodol sy'n ystyried tystiolaeth o ddiddordeb lleol a pha amleddau sydd ar gael yn ddull gweithredu synhwyrol. Dywedodd un ymateb cyfrinachol y byddai'r cynnig yn helpu i atal ymgeiswyr rhag gwastraffu amser ar ardaloedd lle nad oedd modd pennu amleddau addas.
- 3.9 Ond, dywedodd nifer bach o'r ymatebwyr fod treulio amser yn gwirio pa amleddau sydd ar gael yn arwain at oedi cyn cychwyn cylch arall o drwyddedu radio cymunedol. Dywedodd Moss Media a The Radio People y gallai gwirio am amleddau addas arwain at oedi cyn dechrau'r broses o wahodd cwmnïau i wneud cais. Awgrymodd The Radio People y dylai'r gwaith o bennu amledd addas fod yn gyfrifoldeb yr ymgeisydd. Roedd eraill yn ein hannog i wahodd cwmnïau i wneud ceisiadau cyn gynted â phosibl. Yn sgil y sylwadau hyn, rydym wedi diwygio ein dull gweithredu fel y nodir isod.

### **Opsiwn (a): Gwahodd ceisiadau dim ond o ardaloedd lle nad oes gwasanaeth radio cymunedol ar hyn o bryd**

- 3.10 Ym marn Cannock Chase Radio, cylch trwyddedu byr ar gyfer cymunedau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu ar hyn o bryd gan orsaf gymunedol ddylai fod yn flaenoriaeth i Ofcom.
- 3.11 Roedd rhai gorsafedd radio cymunedol presennol hefyd yn cefnogi'r opsiwn hwn. Er enghraifft, roedd gan The Eye FM (yn Melton Mowbray) and GTFM (ym Mhontypridd) rai pryderon am effaith trwyddedu gorsafedd newydd ar wasanaethu cyfredol, lle mae eu darpariaeth yn gorgyffwrdd. Roeddynt yn teimlo y gallai gorsafedd newydd effeithio ar hyfywedd gwasanaethau presennol ac yn dadlau felly mai dod â radio cymunedol i ardaloedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu ar hyn o bryd ddylai fod ffocws cylch byr.
- 3.12 Mewn cyferbyniad, teimlai rhai, er enghraifft Media Ireland, y dylai unrhyw grŵp sy'n bwriadu cyrraedd cymuned darged nad yw'n cael ei gwasanaethu ar hyn o bryd, pa un a fyddai'r orsaf yn gorgyffwrdd â gwasanaeth cyfredol neu ddim, gael yr un cyfle i wneud cais.

### **Opsiwn (b): Gwahodd ceisiadau dim ond o ardaloedd lle mae mwy o amleddau FM ar gael**

- 3.13 Yn ei ymateb ef, dywedodd Matthew Perry fod radio lleol yn ei farn ef yn gwanhau oherwydd y cynnydd mewn rhwydweithio, a gallai gorsaf gymunedol newydd ar gyfer cynulleidfau leol weithio mewn sawl ardal. O'r herwydd, teimlai y dylai Ofcom feddwl llai am y galw am drwyddedau a mwy am a oes amledd ar gael.
- 3.14 Roedd sawl ymateb yn anghytuno â'n cynnig i ddefnyddio 'tystiolaeth o alw' fel sail ar gyfer cynnal cylch trwyddedu arall. Teimlai Radio Saltire y dylid delio â phob cais ar ei haeddiant ei hun yn hytrach nag ar y galw tybiedig.
- 3.15 Ond, gan ystyried bod mwyafrif yr ymatebion yn ffafrio proses sy'n seiliedig ar dystiolaeth o alw, rydym yn dal yn fodlon mai hwn yw'r dull priodol.

- 3.16 Teimlai Radio Scarborough y dylai'r dull trwyddedu fod yn llawer mwy hyblyg ac y dylid gwerthuso pob cais yn unigol. Hefyd, pan fydd trwydded wedi cael ei gwrthod, dadleuai y dylid cael mwy o gyfle i adolygu'r penderfyniad, ac unwaith bod unrhyw wendidau wedi cael eu hunioni y dylid rhoi trwydded, ni waeth a oes 'cylch' trwyddedu'n agored ar y pryd neu beidio.
- 3.17 Mae trwyddedu radio cymunedol yn broses gystadleuol ac mae dyletswydd ar Ofcom i weithredu system deg. Fel y nodir yn Adran 2, mae hyn yn golygu gwahodd cwmnïau i wneud cais ar y sail y gall unrhyw grŵp wneud cais mewn ardal benodedig, o fewn cyfnod amser penodol ac yn amodol ar unrhyw ofynion eraill a nodir yn y ddogfen gwahoddiad. Er tegwch i bob ymgeisydd, ni allwn negodi gyda rhai ymgeiswyr am newid a gwella eu cynigion unwaith y mae penderfyniad i beidio â dyfarnu trwydded wedi'i wneud. Ond, yn ein cylch trwyddedu mwyaf diweddar, rydym wedi cynnig adborth ysgrifenedig i'r cyfryw ymgeiswyr er mwyn iddynt ystyried sut y gallent wella'u cynlluniau petaent yn gwneud cais eto mewn cylch trwyddedu arall.

### **Opsiwn (d): gwahodd ceisiadau mewn ardaloedd lle mae amledd ar gael erbyn hyn**

- 3.18 Nid oedd dim o'r ymatebwyr yn ffafrio'r opsiwn hwn.

### **Gwrthwynebiadau i ragor o drwyddedau radio cymunedol**

- 3.19 Roedd nifer bach o ymatebwyr yn anghytuno â'r cynnig i gynnal cylch trwyddedu radio cymunedol byr arall. Awgrymodd RadioCentre, Lincs FM Group a Folder Media fod angen ystyried a yw'n iawn trwyddedu rhagor o orsafoedd, yn hytrach nag ystyried sut i wneud hynny. Os yw Ofcom yn dal yn sicr ei bod yn iawn trwyddedu rhagor o orsafoedd radio cymunedol ar ôl iddo gwblhau'r dadansoddiad hwn, yna roeddynt yn teimlo mai gwahoddiadau wedi'u targedu fyddai'r dull gorau mae'n debyg.
- 3.20 Wrth gynnig cylch arall o drwyddedu, roedd Ofcom yn ymateb i alw oddi wrth nifer bach o ddarpar ymgeiswyr. Fel rhan o'r ymgynghoriad, roeddem yn gofyn am ddatganiadau o ddiddordeb ar gyfer trwyddedau radio cymunedol i'n helpu i fesur y galw posibl am drwyddedau. Cawsom bron i 100 o ymatebion. Daethom i'r farn felly bod galw clir o hyd am drwyddedau FM (ynghyd â diddordeb oddi wrth ddarpar weithredwyr am gyfleoedd i ddarlledu ar DAB hefyd).
- 3.21 Teimlai RadioCentre, Lincs FM Group a Folder Media y dylid cynnal asesiad o effaith trwyddedu rhagor o orsafoedd cymunedol ar orsafoedd masnachol cyfredol cyn cynnal cylch trwyddedu arall.
- 3.22 Mae deddfwriaeth radio cymunedol eisoes yn mynnu bod Ofcom yn ystyried effaith trwyddedu gwasanaethau newydd ar wasanaethau radio masnachol cyfredol pan fyddwn yn gwneud penderfyniadau trwyddedu. Nid ydym yn derbyn bod angen cynnal asesiad effaith ychwanegol cyn dechrau cylch trwyddedu arall.
- 3.23 Awgrymodd RadioCentre, Lincs FM Group a Folder Media y gellid defnyddio sbectrwm sydd ar gael gan wasanaethau radio masnachol yn ogystal â gorsafoedd cymunedol. Dywedodd RadioCentre *"commercial stations continue to operate in an extremely competitive environment, consequently the ability to extend or boost coverage within a particular area could have a positive impact on numerous small commercial services"*.

- 3.24 Mae gorsafoedd yn gallu gwneud cais am newidiadau i'w trefniadau trawsyrru (ac yn gwneud hynny), gan gynnwys rhagor o amleddau a/neu am estyniad i ardal ddarlledu drwyddedig. Mae Ofcom yn prosesu ceisiadau o'r fath yn unol â'n polisi technegol (sydd ar ein gwefan<sup>3</sup>).
- 3.25 Nid ydym yn ystyried bod y tri ymatebydd y cyfeirir atynt uchod wedi cyflwyno achos cryf dros beidio â bwrw ymlaen â chylch byr o drwyddedu radio cymunedol, o'i gymharu â nifer yr ymatebwyr a oedd yn cefnogi'r cynnig hwn. Hefyd, os oes sbectrwm FM addas ar gael, rydym yn teimlo y dylem roi cyfle i grwpiau wneud cais am drwyddedau, yn hytrach na'i adael heb ei ddefnyddio. Mae defnyddio sbectrwm i drwyddedu gwasanaethau radio cymunedol newydd yn cyd-fynd â dyletswydd Ofcom i sicrhau y gwneir y defnydd gorau o'r amleddau sydd ar gael (ac ni fyddai llawer ohonynt yn gallu darparu digon o signal i gefnogi gwasanaeth radio sy'n gynaliadwy'n fasnachol), a hyrwyddo dewis i ddefnyddwyr.

## Datganiadau o ddiddordeb

- 3.26 Derbynasom 98 'datganiad o ddiddordeb' oddi wrth grwpiau parthed ceisiadau posibl am wasanaethau radio cymunedol newydd ledled y DU. O'r rhain:
- mae deg ar gyfer lleoliadau yng Ngogledd Iwerddon;
  - mae saith ar gyfer lleoliadau yn yr Alban;
  - mae saith ar gyfer lleoliadau yng Nghymru;
  - mae 74 ar gyfer lleoliadau yn Lloegr.
- 3.27 Cawsom sawl datganiad o ddiddordeb gan o leiaf ddau grŵp. Ond, nid yw deddfwriaeth radio cymunedol yn caniatáu i unrhyw gwmni reoli ddal mwy nag un drwydded. Hefyd, cysylltodd chwe gorsaf sydd eisoes yn gweithredu â ni mewn perthynas ag ymestyn eu hardaloedd darlledu presennol. Nid yw'r rhain wedi'u cynnwys yn y cyfansymiau uchod, gan yr oeddem yn ceisio adborth gan grwpiau a oedd yn dymuno gwneud cais am drwyddedau newydd.
- 3.28 Dywedasom yn yr ymgynghoriad y gallai fod angen i ni osod terfyn ar nifer yr ardaloedd rydym yn barod i wahodd grwpiau i wneud ceisiadau ar eu cyfer petai'r datganiadau o ddiddordeb yn dangos bod lefel y galw gymaint fel na fyddem yn gallu delio â hynny mewn cylch trwyddedu byr. Dywedasom y byddai angen i ni benderfynu sut i flaenoriaethu'r ardaloedd hyn ac y byddem yn defnyddio'r adborth i'r ymgynghoriad i benderfynu sut i wneud hyn.

## Penderfyniad Ofcom

- 3.29 Oherwydd lefel y galw am drwyddedau, rydym wedi penderfynu cynnal cylch arall o drwyddedu radio cymunedol analog.
- 3.30 O ganlyniad i'r adborth a gafwyd yn yr ymgynghoriad ac y cyfeirir ato uchod, rydym wedi penderfynu peidio ag aros cyn gwahodd cwmnïau i wneud cais drwy gynnal gwaith cynllunio amledd ymlaen llaw. Mae'r broses o wirio a oes amledd ar gael cyn gwahodd cwmnïau i wneud cais yn cymryd cryn amser. Y brif fantais yw rhywfaint o sicrwydd i ymgeiswyr a allai, mewn rhai achosion, gyflwyno cais ar gyfer ardal lle

<sup>3</sup> <https://www.ofcom.org.uk/manage-your-licence/radio-broadcast-licensing/apply-for-a-radio-broadcast-licence>

nad oes amledd addas ar gael ar ei chyfer. Ond, rhaid inni hefyd ystyried bod rhanddeiliaid am weld Ofcom yn symud ymlaen i wahodd ceisiadau gyn gynted â phosibl, ac y byddai gwneud gwaith cynllunio amledd ar gyfer yr holl ardaloedd yr ydym yn gwahodd ceisiadau ar eu cyfer yn arwain at oedi cyn gallu gwahodd ymgeiswyr i wneud cais, fel y nodwyd gan nifer o ymatebwyr i'n hymgyngoriad.

- 3.31 Ar y sail honno, rydym o'r farn ei bod yn well bwrw ymlaen i wahodd ymgeiswyr i wneud cais cyn cynnal gwaith cynllunio amledd helaeth. Rydym hefyd yn nodi bod gwahodd ymgeiswyr i wneud cais heb gynllunio amleddau ymlaen llaw yn cyd-fynd â'n proses ar gyfer y ddwy 'ranbarth' olaf yn ein trydydd cylch trwyddedu (pan wnaethom ofyn am geisiadau ar gyfer lleoliadau yn ne ddwyrain Lloegr (heb gynnwys Llundain), ac wedyn yn Llundain ac ardaloedd eraill o fewn yr M25).
- 3.32 Rydym hefyd wedi penderfynu gwahodd ymgeiswyr i wneud cais ar gyfer pob ardal y gwnaethom dderbyn datganiad o ddiddordeb ar ei chyfer. Gwahoddir ymgeiswyr i wneud cais mewn dau gam, gyda blaenoriaeth yn cael ei rhoi i'r ardaloedd hynny nad ydynt ar hyn o bryd yn cael eu gwasanaethu gan orsaf radio cymunedol.
- 3.33 Credwn fod y dull hwn yn gyson â barn y mwyafrif a fynegwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr (31) yn cytuno mai opsiwn c oedd y gorau, ond roedd hefyd dipyn o gefnogaeth i opsiwn a (gwahodd ceisiadau dim ond o ardaloedd lle nad oes gwasanaeth radio cymunedol ar hyn o bryd).
- 3.34 Hefyd, yn yr ymgynghoriad dywedasom fod y CMA wedi cynnal arolwg ymhlith ei aelodau lle roedd 23 o'r 57 ymatebydd wedi dweud mai eu blaenoriaeth gyntaf hwy fyddai i Ofcom drwyddedu gwasanaethau newydd mewn ardaloedd lle nad oes gwasanaethau radio cymunedol ar hyn o bryd.
- 3.35 O'r 98 datganiad o ddiddordeb a dderbyniasom, mae 57 ar gyfer ardaloedd 'newydd' (h.y. nid yw'r gwasanaeth sy'n cael ei gynnig yn gorgyffwrdd â gwasanaeth radio cymunedol cyfredol) ac ar gyfer cyfanswm o 54 o wahanol leoliadau (heb gynnwys yr ardaloedd hynny y gwnaethom wahodd cwmnïau i wneud cais ar eu cyfer yng Nghylch 3). O'r rhain, mae chwech yng Ngogledd Iwerddon, pedwar yn yr Alban, saith yng Nghymru a 45 yn Lloegr.
- 3.36 Bydd y gwahoddiad i wneud cais am drwydded yn unrhyw un o'r ardaloedd hyn yn cael ei gyhoeddi gyda'r datganiad hwn.
- 3.37 Bydd gwahoddiad i wneud cais am drwydded yn yr ardaloedd sy'n weddill y dderbyniasom ddatganiadau o ddiddordeb ar eu cyfer (h.y. y rheini sydd eisoes yn cael eu gwasanaethu gan o leiaf un gwasanaeth radio cymunedol) yn dilyn yn y man.
- 3.38 Fel y nodwyd uchod, rydym wedi gorfod cydbwysu'r awydd i ymgeiswyr gael sicrwydd y bydd amledd ar gael ar gyfer yr ardaloedd y maent yn gwneud cais ar eu cyfer, ag awydd llawer o ddarpar ymgeiswyr i allu gwneud cais am drwydded heb ormod o oedi. Er bod posibilrwydd na fydd amledd ar gael mewn ardal benodol, nodwn fod y dull hwn yn debyg i'r dull a ddefnyddiwyd gennym yn y trydydd cylch o drwyddedu radio cymunedol, ac yn y cylch hwnnw, lleisiwyd pryderon am argaeledd amleddau mewn llai na 3% o'r ceisiadau.

## Adran 4

# Newidiadau i'n polisi technegol

## Y Cefndir

- 4.1 Ni chafwyd bron dim newid yn ein polisi technegol ar gyfer radio cymunedol ers inni ddechrau trwyddedu gorsafoedd yn 2005. Rydym wedi cael adborth gan drwyddedeion cyfredol a newydd am ddefnyddio dull mwy hyblyg, ac felly'n ystyried ei fod yn amser priodol i ni ystyried adolygu ein polisi.

## Cynigion yn ein hymgyngoriad

- 4.2 Yn ein hymgyngoriad, rhoesom ein cynigion ar gyfer newidiadau i'n polisi technegol mewn tri maes: gwasanaethau radio cymunedol newydd, gwelliannau i'r ddarpariaeth cyfredol, ac ymestyn yr ardal ddarlledu ar gyfer gwasanaethau cyfredol.

### Gwasanaethau radio cymunedol newydd

- 4.3 Ar gyfer pob gorsaf newydd, roeddem yn cynnig ystyried cymuned darged yr orsaf, a lleoliad y gymuned honno cyn penderfynu ar yr ardal ddarlledu drwyddedig.
- 4.4 Dywedasom y byddai gorsafoedd radio cymunedol ar FM fel arfer yn cael eu trwyddedu ar gyfer radiws darlledu o ryw 5km mewn ardaloedd trefol a maestrefol. Mewn ardaloedd gwledig lle mae mwy o amleddau FM addas ar gael, gellir trwyddedu radiws darlledu mwy.
- 4.5 Ar AM, dywedasom y byddai gorsafoedd radio cymunedol yn cael eu trwyddedu fel arfer ar gyfer radiws darlledu o tua 10km.
- 4.6 Dywedasom hefyd fod gorsafoedd FM fel arfer yn cael eu trwyddedu ar un amledd o un safle trawsyrru. Y pŵer mwyaf a drwyddedir fel arfer yw 25 wat y plân. Gellir ystyried pwerau mwy os rhagwelir y bydd lefelau uchel o ymyriant o'r tu allan, neu i sicrhau lefelau signal digonol ar draws yr ardal ddarlledu darged. Er hynny, ni fydd pwerau mwy yn cael eu hystyried fel arfer i ddellio ag effaith dewis safle gwael ar gyfer y trosglwyddydd. (Os defnyddir pwerau mwy, gall hynny alw am ddefnyddio antenâu trawsyrru cyfeiriadol er mwyn diogelu gwasanaethau trwyddedig eraill.)

### Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer gwasanaethau presennol

- 4.7 Roedd y polisi technegol arfaethedig yn dweud y gellid ystyried ceisiadau i wella'r ddarpariaeth o fewn yr ardal drwyddedig bresennol (e.e. cynyddu pŵer neu ychwanegu trosglwyddydd ategol) i helpu i wasanaethu'r gymuned darged yn ddigonol (er enghraifft, i helpu i fynd i'r afael â darpariaeth neu signal gwael oherwydd ymyriant neu faterion yn gysylltiedig â'r dirwedd leol).

### Ymestyn yr ardal ddarlledu ar gyfer gwasanaethau presennol

- 4.8 Ailddatganodd ein hymgyngoriad y gall gorsaf wneud cais i ymestyn ei hardal ddarlledu drwyddedig. Mae Deddf Darlledu 1990 (Adran 106(4) i (6) fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 a'i haddasu gan Orchymyn Radio Cymunedol 2004) yn caniatáu i Ofcom awdurdodi estyniad i ardal drwyddedig i ardal neu leoliad cyfagos: dim ond os nad yw hynny'n cynyddu'r ardal drwyddedig

yn sylweddol neu; os yw'n ystyried y gellid cyfiawnhau'r cynnydd yn yr ardal drwyddedig yn amgylchiadau eithriadol yr achos.

- 4.9 Gan ystyried y darpariaethau hyn, gwnaethom gynnig defnyddio chwe mater craidd ym mhob achos wrth benderfynu a ddylid cydsynio i geisiadau am ymestyn yr ardal ddarlledu drwyddedig bresennol i ardal neu leoliad cyfagos. Roeddem yn gofyn barn am y materion craidd hyn yn yr ymgynghoriad. Y rhain yw:
- A ellid credu'n rhesymol fod y cynnydd yn yr ardal drwyddedig yn "sylweddol". Wrth benderfynu ar hyn, bydd Ofcom yn ystyried maint y cynnydd yn y boblogaeth yn sgil ymestyn yr ardal drwyddedig, a hefyd maint yr ardal neu leoliad cyfagos.
  - A oes gan yr ardal y mae'r trwyddedai yn dymuno ymestyn iddi berthynas â'r ardal drwyddedig bresennol, neu a oes tebygrwydd rhyngddynt (e.e. a fyddai ymestyn yn briodol o gofio am gymuned darged ddatganedig gorsaf. Mae ymestyn yr ardal ddarlledu i bentrefi bach o gwmpas tref neu ddinas ganolog yn llai tebygol o fod yn "sylweddol" nag ymestyn i ganolfan boblogaeth sylweddol arall). Bydd pob achos yn wahanol ac yn cael ei farnu ar sail ei rinweddau.
  - A oes unrhyw amgylchiadau eithriadol a fyddai'n cyfiawnhau cynnydd y gellid credu'n rhesymol ei fod yn "sylweddol". (Er enghraifft, gallem ystyried cynigion yn y cais gwreiddiol; ceisiadau am ymestyn yr ardal ddarlledu i gynnwys pobl yn yr un gymuned â'r gymuned darged sydd mewn ardaloedd cyfagos sydd heb wasanaeth digonol; a newidiadau mewn demograffeg leol).
  - Os oes angen adnoddau amledd ychwanegol i hwyluso'r estyniad a geisir, a oes adnoddau addas ar gael.
  - Yr effaith y byddai cynnydd o faint priodol mewn adnoddau amledd (h.y. trosglwyddyddion ategol, neu bŵer trosglwyddydd presennol i ddarlledu i'r ardal estynedig honno) yn ei chael ar argaeledd amleddau dros ardal ehangach (o lawer).
  - Yr effaith bosibl ar wasanaethau radio trwyddedig eraill. Byddwn yn ystyried i ba raddau y byddai'r estyniad arfaethedig i'r ardal ddarlledu yn gorgyffwrdd â gorsafoedd radio cymunedol a masnachol cyfredol. Os oes cyfyngiad ariannu ar drwydded radio cymunedol (terfyn ar incwm o hysbysebu ar yr awyr a nawdd o £15,000 y flwyddyn) o ganlyniad i orgyffwrdd â gwasanaeth masnachol, nid yw'n debygol y byddwn yn cytuno ar estyniad a fyddai'n gorgyffwrdd i fwy o raddau â'r gwasanaeth hwnnw. Os byddai estyniad yn ymestyn y cwmpas darlledu i ardal graidd gwasanaeth masnachol neu gymunedol (er enghraifft, i'r brif dref y mae'r orsaf honno'n ei gwasanaethu) gan orgyffwrdd ag ef, mae'n bosibl na fyddwn yn cydsynio i gais.
- 4.10 Bydd angen i orsaf wneud cais, a chyflwyno dadl resymegol dros wneud cais am ymestyn yr ardal ddarlledu bresennol i ardal neu leoliad cyfagos, ynghyd â thystiolaeth ategol (er enghraifft, tystiolaeth ddemograffig neu dystiolaeth briodol arall neu wybodaeth sy'n berthnasol i'w hachos).

## **Polisi ar gyfer gwasanaethau radio cymunedol newydd: ymatebion i'r ymgynghoriad**

- 4.11 Yn yr ymgynghoriad, gwnaethom ofyn tri chwestiwn am y polisi technegol arfaethedig: un yng nghyswllt y polisi ar gyfer gorsafoedd newydd, un am



welliannau yn y ddarpariaeth ar gyfer gwasanaethau presennol ac un am ymestyn yr ardaloedd darlledu cyfredol.

- 4.12 Mewn perthynas â gorsafoedd radio cymunedol newydd, gwnaethom ofyn: *“Ydych chi'n cytuno â'n polisi diwygiedig arfaethedig mewn perthynas â gwasanaethau radio cymunedol newydd? Os nad ydych, rhowch wybod i ni am eich rhesymau.”*
- 4.13 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion oddi wrth orsafoedd radio cymunedol newydd a'r rhai sydd am wneud cais yn cytuno at ei gilydd â'n cynigion heblaw am y cyfeiriad at y radiws 5km ar gyfer gorsafoedd.
- 4.14 Awgrymodd Seahaven FM y dylid, cyn trwyddedu unrhyw orsafoedd newydd, ystyried gorsafoedd cyfredol drwy ymgynghori â gorsafoedd sydd yn yr un lleoliad neu'n agos.
- 4.15 Roedd barn The Eye yn debyg gan ddweud eu bod yn cytuno â'r polisi newydd arfaethedig *“...provided existing services are given the same opportunities. It would be unfair to allow new stations extra coverage when existing stations are so restricted. There needs to be a level playing field for all.”*
- 4.16 Dywedodd Cambridge 105 nad dim ond ardaloedd gwledig ddylai elwa o ardal fwy – *“In some areas, target communities are heavily commuter-focused, and so covering, for example, those who work in a city also requires extension beyond the city into the "commuter belt" of surrounding villages to adequately cover the community across their daily lives.”*
- 4.17 Dywedodd Sahara Radio *‘The current proposal limiting all new licensing in urban and sub-urban areas to 5km is too small and should consider extending to meet the needs of communities which are large and audience spread across, say 10km’*
- 4.18 Awgrymodd The Radio People y gallai ymgeiswyr ganfod eu hamleddau eu hunain, gan ddefnyddio proses debyg i'r un a ddefnyddir gan yr FCC yn yr Unol Daleithiau. Maent hefyd yn credu *“Whilst frequency spectrum is a scarce resource and frequency availability is likely to continue be an issue in metropolitan areas, we believe that there remains an abundance of unused FM capacity that Ofcom has not yet utilised.”* a *“the broad-brush 25 watts approach [is] by your own admission all about making it ‘easier and quicker for us to administer than a more flexible approach’. This approach has failed to take into account individual station requirements, and does not put the communities that need to be served at the centre of the solution.”*
- 4.19 Dyma farn Moss Media *“...the arbitrary coverage radius of 5km...has an unwelcome side effect of insufficient or variable coverage in less sizeable urban areas - where the targeted potential audience/community of interest may be distributed throughout the entire area.”*
- 4.20 Dywedodd Transplan *“Ofcom’s overall policy should be that 5km is a guide and it is the responsibility of the Applicant to present a convincing case otherwise.”*
- 4.21 Roedd Pwyllgor Cynghori Cymru Ofcom yn croesawu'r hyblygrwydd a oedd yn cael ei gynnig gan nodi nad yw rhai ardaloedd yng Nghymru yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol gan radio lleol, eu bod yn tueddu i fod yn fwy gwledig ac felly roedd argaeledd amleddau'n llai o broblem.

- 4.22 Roedd North Cotswold Community Radio yn anghytuno â'r cynnig. Dywedodd *"No, we ... know our audience therefore we should be able to propose our coverage area & how to reach our community. One of the main reasons why many community stations have failed is because Ofcom have insisted on unrealistic coverage areas and have kowtowed to the commercial interests of other stations."*
- 4.23 Roedd Folder Media yn pryderu am y canlynol *"...greater expansion of both new and existing community radio services without considering the suitability on a market by market basis."*, a *"...we believe Ofcom should conduct a thorough impact assessment..."* Roedd yn awgrymu y dylid cael dadansoddiad cyhoeddus o'r amleddau FM sydd ar gael gan nodi mai'r amcan gwreiddiol oedd sicrhau mai unrhyw amleddau ar gyfer radio cymunedol yw'r rheini na fyddai'n ymarferol i radio masnachol eu defnyddio.
- 4.24 Roedd Lincs FM Group am weld Ofcom yn parhau â'r polisi 5km *"unless the entirety of the new coverage area is genuinely rural and that the new coverage does not bring any new towns or sizable communities into the coverage area."*
- 4.25 At ei gilydd, roedd RadioCentre yn cytuno ond gan ddweud hefyd *"allowing community radio stations to extend coverage into an adjoining area or locality is a power that should be limited and only be used in very exceptional circumstances."* a hefyd *"if such an extension increases an overlap with a commercial radio service it should generally be refused."*

## **Polisi parthed gwelliannau i'r ddarpariaeth ar gyfer gwasanaethau presennol: ymatebion i'r ymgynghoriad**

- 4.26 Nesaf, gwnaethom nodi ein polisi diwygiedig arfaethedig mewn perthynas â gwelliannau i'r ddarpariaeth ar gyfer gwasanaethau presennol. Gofynnwn: *"A ydych yn cytuno â'n cynnig ar gyfer ystyried ceisiadau i wella'r ddarpariaeth ddarlledu yn yr ardal drwyddedig ar gyfer gwasanaethau trwyddedig presennol? Os nad ydych, rhowch eich barn i ni"*.
- 4.27 At ei gilydd, roedd y rhan fwyaf o orsafoedd radio cymunedol presennol yn cytuno â'n cynigion.
- 4.28 Teimlai Eden fod gwelliannau i'r cwmpas darlledu *"of particular importance to existing stations in very rural areas [which] should have priority over city stations, who already have significant audience numbers. Rural stations suffer from small areas and therefore small populations, making them unsustainable."*
- 4.29 Roedd Phonic FM yn croesawu'r syniad o welliannau i'r ddarpariaeth, ond gan nodi y gall y gost o newid safle, cynyddu'r pŵer neu ddarparu trosglwyddydd fod yn rhy ddrud i'r rhan fwyaf o orsafoedd.
- 4.30 Roedd Radio Ninesprings yn cytuno â'r cynigion ond gan rybuddio *"that any increase in signal strength [should] not unreasonably encroach on the licensed coverage area of adjoining community stations and set one community radio station against another. If this were to happen, it would force community stations to compete for funding and support"*
- 4.31 Roedd The Eye yn cytuno â'r cynnig. Dywedodd bod *"a number of stations serving rural areas with a mix of villages and one or two small towns have 'holes' in their prime coverage area. This seems to particularly affect the towns as they tend to be at the bottom of hills making reception poor. The easiest thing would be to allow an*

*increase in power, subject to no interference to other services... an alternative, but more expensive option, would be a low powered fill-in transmitter on another suitable frequency sited in the main town itself”.*

- 4.32 Teimlai Moss Media *“If an application for a power increase is valid in audience coverage terms, can be justified and backed by professional research, analysis and formal coverage predictions, and is found to result in little, acceptable or no increased conflict with existing services of any type, we do not believe a subjective view about a “poor” transmission site constitutes a valid reason for refusal to at least consider it. The question surely is: will the requested power level do the proposed/intended job without a greater downside when compared to the existing power level at that site?”*
- 4.33 Roedd Folder Media a Lincs FM yn bryderus am y gystadleuaeth i orsafoedd masnachol presennol. Teimlai Lincs FM hefyd na ddylid ymestyn y terfyn 5km oni bai fod yr orsaf gymunedol yn wirioneddol wledig.
- 4.34 Aeth RadioCentre ymhellach ac am weld rhagor o ymgynghori ar bob penderfyniad. Dywedasant *“...allowing community radio stations to extend coverage into an adjoining area or locality is a power that should be limited and only be used in very exceptional circumstances. Any decision should follow a public consultation and full examination of the options. In addition, if such an extension increases an overlap with a commercial radio service it should generally be refused.”*

## **Polisi parthed ymestyn yr ardal ddarlledu ar gyfer gwasanaethau presennol: ymatebion i'r ymgynghoriad**

- 4.35 Yn drydydd, gwnaethom nodi ein polisi diwygiedig arfaethedig mewn perthynas ag ymestyn yr ardal ddarlledu ar gyfer gwasanaethau presennol. Gwnaethom ofyn *“Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ystyried ceisiadau i ymestyn ardal drwyddedig bresennol gwasanaeth radio cymunedol i ardal neu leoliad cyfagos? Byddwn yn ystyried ceisiadau o'r fath gan ddefnyddio meini prawf statudol, ac rydym yn bwriadu ystyried chwe mater craidd i'n helpu i benderfynu a fyddwn yn cydsynio i gais neu beidio. A ydych yn cytuno â'r materion craidd rydym yn cynnig eu hystyried? Os nad ydych, rhowch eich sylwadau i ni”.*
- 4.36 At ei gilydd, roedd mwyafrif yr ymatebwyr o blaid ein cynigion. Teimlai ymatebwyr o'r sector radio masnachol petai amleddau ar gael ar gyfer ardaloedd ehangach y dylent gael eu defnyddio'n bennaf ar gyfer radio masnachol.
- 4.37 At ei gilydd, roedd Radio West Fife o blaid, er *“...we would like to see safeguards that considered whether the extended area would be better served by its own community radio station and the opportunity for an application from within the extension area for a stand-alone service.”*
- 4.38 Dywedodd The Radio People *“it is not clear as to whether some, the majority or all of these core considerations need to be met in order for a licence extension request to be granted. Specifically:*
- *We believe there should be guidance (or at least a definition) to indicate what Ofcom considers to be a ‘significant’ population increase.*

- *We welcome the proposal to judge each request on its merits - as the measure of a relationship to or affinity with an existing licensed area can only be assessed on a case by case basis.*
  - *We acknowledge that Ofcom will consider the impact on frequency availability over a wider area but why a '(much)' wider area'? It might be helpful to have greater clarification on what is considered to be 'the core area' of an overlapped commercial or community service."*
- 4.39 Dywedodd Transplan "*requests to provide an additional or linked service to an adjacent area should be addressed positively and on an individual merit basis rather than falling back on to the proposed six core criteria*" (er na chafwyd cynnig arall ynghylch beth ddylai'r sail teilyngdod unigol fod).
- 4.40 Dywedodd Pwyllgor Cynghori Cymru Ofcom "*The six core considerations ... appear to us to be broadly reasonable. However, we disagree with the approach of the core considerations in situations where community stations overlap significantly with small local commercial stations. Such [community] stations were originally unable to raise any commercial income, but the rules in this area were liberalised a few years ago, following the outcome of a DCMS consultation. In our view a small increase in coverage, under such circumstances, would have minimal commercial impact on the relevant local commercial station. We therefore believe that the core considerations should not automatically rule out such extensions of coverage in such cases.*"
- 4.41 Dywedodd un ymatebydd cyfrinachol "*stations should seek professional advice from those industry specialists who can model coverage and provide the necessary "bridge" between the licensee and the regulator. I don't feel it's Ofcom's remit to be getting involved in providing technical support to individual licensees.*"

## **Penderfyniad Ofcom**

- 4.42 Dywedodd nifer o'r ymatebion a dderbyniasom fod ein polisi diwygiedig, a oedd yn ceisio cyflwyno rhywfaint o hyblygrwydd a hefyd rhywfaint o arweiniad ar ardaloedd darlledu nodweddiadol, yn cyfyngu'n ormodol.
- 4.43 O'r herwydd, rydym wedi penderfynu diwygio ein polisi arfaethedig fel nad yw bellach yn gosod cyfyngiadau cyffredinol ar y cwmpas darlledu ar gyfer gwasanaethau radio cymunedol. Rydym wedi ychwanegu rhywfaint o wybodaeth i helpu rhanddeiliaid i ddeall y cyfyngiadau technegol a allai fod yn berthnasol.
- 4.44 Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r polisi arfaethedig parthed gwelliannau i'r ddarpariaeth ar gyfer gwasanaethau presennol, ac ar gyfer ymestyn ardaloedd darlledu, ac felly nid oes newid yma i'r cynnig yn ein hymgyngoriad.
- 4.45 Mae'r polisi diwygiedig rydym wedi penderfynu ei fabwysiadu'n cael ei nodi isod.

## **Gwasanaethau radio cymunedol newydd**

- 4.46 Er y credwn ei bod yn ddefnyddiol pennu arweiniad y gall nifer yr amleddau sydd ar gael gyfyngu'r pwerau trawsyrru yn aml i oddeutu 25 wat a'r radiws darlledu i oddeutu 5km, rydym wedi penderfynu symud oddi wrth ofynion sy'n rhy gaethiwus sy'n seiliedig ar gyfyngu ar y pŵer trawsyrru neu'r radiws darlledu. Yn hytrach, rydym yn awr am fabwysiadu dull mwy hyblyg a byddwn yn ystyried ceisiadau ar gyfer ardaloedd ehangach lle gall ymgeiswyr ddangos y bydd yr ardal ddarlledu

arfaethedig yn rhoi gwell gwasanaeth i'r gymuned darged; a lle mae hyn yn bosibl yn dechnegol.

- 4.47 Wrth benderfynu ar yr ardal ddarlledu drwyddedig, byddwn, ar gyfer pob gorsaf newydd, yn ystyried cymuned darged yr orsaf, a lleoliad y gymuned honno. Yn benodol, rydym yn cydnabod bod cymuned fuddiant yn gallu cwmpasu ardal ehangach na chymuned o bobl yn byw yn yr un dref.
- 4.48 Rhaid i bob gorsaf ddarparu gwasanaeth sy'n cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol ar gyfer radio cymunedol ('nodweddion gwasanaeth'). Rhaid iddi ddiffinio ei chymuned neu gymunedau targed (pobl mewn ardal neu leoliad; neu gymuned fuddiant); a darparu buddion sydd ar gael i bobl ar draws yr ardal ddarlledu arfaethedig. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol (ond nid yw hon yn rhestr gyflawn):
- i) rhoi cyfleoedd i aelodau'r gymuned darged gyfrannu at yr orsaf (e.e. fel gwirfoddolwyr yn cynhyrchu cynnwys; rhedeg yr orsaf);
  - ii) darparu buddion (budd cymdeithasol) i'r gymuned darged, gan gynnwys darparu hyfforddiant.
- 4.49 Dylai darpar ymgeiswyr fod yn ymwybodol o'r canlynol:
- Mewn sawl ardal yn y DU, yn arbennig mewn ardaloedd trefol a maestrefol, mae'r bandiau darlledu FM eisoes yn orlawn. Gall trwyddedu gwasanaethau newydd (neu ehangu gwasanaethau presennol) yn y cyfryw ardaloedd achosi ymyriant o'r tu mewn i orsafoedd radio eraill, a/neu fod yn agored i ymyriant o'r tu allan oddi wrth wasanaethau trwyddedig eraill, sy'n golygu na fydd gwrandawyr o bosib yn gallu clywed y naill wasanaeth neu'r llall yn iawn. O ganlyniad, mae'n debyg na fydd amleddau ychwanegol na lefelau pŵer uwch ar gael yn y cyfryw ardaloedd.
  - Gall argaeledd amleddau mewn ardaloedd trefol a maestrefol fod yn ddibynnol ar antenâu trawsyrru mwy cymhleth (ac felly mwy o wariant) er mwyn diogelu gwasanaethau presennol rhag ymyriant, os yw pwerau uwch i'w defnyddio
  - Yn gyffredinol, mae mwy o gyfle i gael ardaloedd darlledu mwy mewn lleoliadau gwledig, lle gall mwy o amleddau FM addas fod ar gael.

### **Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer gwasanaethau presennol:**

- 4.50 Gellir ystyried ceisiadau i wella'r ddarpariaeth o fewn yr ardal drwyddedig bresennol (e.e. cynyddu pŵer neu ychwanegu trosglwyddydd ategol) i helpu i wasanaethu'r gymuned darged yn ddigonol (er enghraifft, i helpu i fynd i'r afael â darpariaeth neu signal gwael oherwydd ymyriant neu faterion yn gysylltiedig â'r dirwedd leol).
- 4.51 Os bydd cynyddu'r pŵer yn cael ei ganiatáu neu os cytunir i ychwanegu trosglwyddydd ategol, efallai y bydd angen gwneud rhai addasiadau technegol os symudir safle wedyn (megis gostyngiad yn y pŵer neu nwl) os effeithir ar wasanaethau cyfredol eraill, neu petai'r gwasanaeth yn ymestyn y tu hwnt i'r ardal ddarlledu drwyddedig sydd wedi'i chytuno arni.

### **Ymestyn yr ardal ddarlledu ar gyfer gwasanaethau presennol**

- 4.52 Gall gorsaf wneud cais i ymestyn ei hardal ddarlledu drwyddedig. Mae Deddf Darlledu 1990 (Adran 106(4) i (6) fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 a'i haddasu gan Orchymyn Radio Cymunedol 2004) yn caniatáu i Ofcom awdurdodi

estyniad i ardal drwyddedig i ardal neu leoliad cyfagos: dim ond os nad yw hynny'n cynyddu'r ardal drwyddedig yn sylweddol neu; os yw'n ystyried y gellid cyfiawnhau'r cynnydd yn yr ardal drwyddedig yn amgylchiadau eithriadol yr achos.

4.53 Hefyd, byddwn yn defnyddio chwe 'mater craidd' wrth ystyried ceisiadau:

- a oes gan yr ardal y mae'r trwyddedai yn dymuno ymestyn iddi berthynas â'r ardal drwyddedig bresennol, neu a oes tebygrwydd rhyngddynt (e.e. a fyddai ymestyn yn briodol o gofio am gymuned darged ddatganedig gorsaf);
- a ellid credu'n rhesymol fod y cynnydd yn yr ardal drwyddedig yn "sylweddol";
- a oes unrhyw amgylchiadau eithriadol a fyddai'n cyfiawnhau cynnydd y gellid credu'n rhesymol ei fod yn "sylweddol";
- os oes angen adnoddau amledd ychwanegol i hwyluso'r estyniad a geisir, a oes adnoddau addas ar gael;
- effaith y newid (h.y. trosglwyddyddion ategol, neu'r pŵer sydd gan drosglwyddydd presennol i ymestyn y ddarpariaeth i'r ardal estynedig honno) ar argaeledd yr amleddau dros ardal ehangach (o lawer);
- yr effaith bosibl ar wasanaethau radio masnachol a chymunedol trwyddedig eraill.

## Adran 5

# Blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol

## Y Cefndir

- 5.1 Rydym wedi penderfynu gwahodd cwmnïau i wneud ceisiadau am drwyddedau radio cymunedol newydd, ac wedi penderfynu gwneud newidiadau i'n polisi technegol. Hefyd, mae angen i ni benderfynu ar beth y dylem ganolbwyntio ein hymdrechion. Gwnaethom ofyn am sylwadau ar ein blaenoriaethau fel rhan o'r ymgynghoriad.
- 5.2 Dywedasom ein bod yn rhagweld y byddai ein cylch presennol o drwyddedu (y trydydd) yn dod i ben ddiwedd tymor y Gwanwyn 2017 ac na fyddai'r gwaith o drwyddedu gwasanaethau DAB ar raddfa fach yn debyg o gychwyn cyn 2018. Dyna'r sefyllfa o hyd.
- 5.3 Mae ein gwaith ar y 32 cais a gyflwynwyd ddiwedd mis Hydref 2016 ar gyfer ardaloedd yn Llundain Fwyaf ac am drwyddedau AM yn parhau, ac rydym yn rhagweld y bydd penderfyniadau wedi cael eu gwneud cyn diwedd yr Haf.
- 5.4 Mae'r Bil Darlledu (Gwasanaethau Amblecs Radio) 2016-17 (Bil Aelod Preifat) wedi bod yn mynd trwy'r broses Seneddol. Mae darpariaeth yn y Bil ar gyfer rheoleiddio gwasanaethau amblecs radio ar raddfa fach; ac ar gyfer dibenion cysylltiedig.
- 5.5 Dywedasom hefyd fod gwaith radio cymunedol parhaus Ofcom ('busnes fel arfer') wedi cynyddu gyda nifer y gwasanaethau trwyddedig a bydd yn parhau. Mae'n cynnwys:
  - gwaith technegol a gweinyddol sy'n gysylltiedig â dechrau darlledu gwasanaethau newydd;
  - prosesu ceisiadau am ymestyn trwyddedau;
  - rheoli trwyddedau (yn cynnwys amrywio trwyddedau, newidiadau yng nghwmnïau'r trwyddedeion, ceisiadau am drosglwyddo trwyddedau);
  - delio â chwynion ac ymchwiliadau ynghylch cydymffurfio â thrwyddedau;
  - asesu cydymffurfiaeth â rheolau ariannu (drwy adroddiadau cyllid blynyddol);
  - asesu a gweithredu ar geisiadau am newidiadau mewn trefniadau trawsyrru; a
  - gweinyddu'r Gronfa Radio Cymunedol.

## Ein blaenoriaethau arfaethedig

- 5.6 Yn y cyfnod ar ôl i'n gwaith ar y trydydd cylch trwyddedu ddod i ben a chyn i'r gwaith ar drwyddedu DAB ar raddfa fach gychwyn, gwnaethom gynnig y byddai gennym gyfnod ar gael i drwyddedu rhagor o wasanaethau analog, yn ogystal ag ystyried gwella'r ddarpariaeth ar gyfer gwasanaethau presennol.
- 5.7 Yn ein hymgyngghoriad, gwnaethom gynnig:



- Ein blaenoriaeth gyntaf ddylai fod cynnal cylch trwyddedu newydd a fydd yn fyr a phenodol.
- Ein hail flaenoriaeth fyddai ystyried gwelliannau i wasanaethau presennol ac ymestyn eu hardaloedd darlledu:
  - dylid ystyried ceisiadau oddi wrth orsafoedd sy'n dioddef llawer iawn o ymyriant i ddechrau;
  - byddai hyn yn cael ei ddilyn gan geisiadau oddi wrth orsafoedd sydd â derbyniad gwael yn eu hardal ddarlledu;
  - byddai ceisiadau am ardal ddarlledu ehangach na'r ardal sydd wedi'i thrwyddedu ar hyn o bryd (h.y. estyniad i'r ardal ddarlledu drwyddedig) yn flaenoriaeth is.
- Ein trydedd blaenoriaeth fyddai ymgymryd â chynllunio technegol cyn y gwaith trwyddedu a ragwelir ar gyfer gwasanaethau DAB ar raddfa fach. Byddai blaenoriaeth y gwaith hwn yn cynyddu wrth inni ddynesu at y dyddiad y gall y trwyddedau newydd ar gyfer y gwasanaethau hyn gychwyn.

## Ymatebion i'r ymgynghoriad

- 5.8 Yn yr ymgynghoriad gwnaethom ofyn: *“a ydych yn cytuno â chynigion Ofcom ar gyfer ei flaenoriaethau yn ei waith ar radio cymunedol? Os nad ydych, rhowch eich rhesymau i ni.”*
- 5.9 Roedd 27 ymatebydd yn cefnogi'n cynnig ar ein blaenoriaethau ar gyfer gwaith yn y dyfodol. Roedd 8 ymatebydd yn anghytuno.

## Trwyddedu gwasanaethau newydd

- 5.10 Redd RadioCentre yn anghytuno â'n cynnig. Teimlai y dylai Ofcom gynnal asesiad o effaith radio cymunedol a'i effaith ar y farchnad cyfryngau leol cyn penderfynu a ddylid trwyddedu rhagor o wasanaethau neu ganiatau i wasanaethau presennol ehangu. Ynghyd â Folder Media, teimlai RadioCentre y dylai Ofcom gynnal dadansoddiad o'r sbectrwm FM sydd ar gael i ystyried a allai rhai fod yn addas ar gyfer gwasanaethau radio masnachol.
- 5.11 Teimlai The Radio People na ddylai'r broses o gynllunio amleddau arwain at oedi gyda'r broses o wahodd ceisiadau am drwyddedau newydd. Dyma a awgrymwyd gan HNBT *“the use of AM/MW by listeners is decreasing and therefore we believe that Ofcom resources should not be used with planning any new AM/MW services [unless] BBC local radio closes its AM/MW transmissions then these frequencies and sites could be offered to ‘community of interest’ broadcasters”.*
- 5.12 Roedd North Cotswold Community Radio yn annog Ofcom i *“take an all-round approach including looking to the internet ... [ignoring] internet only stations ... is indicative of narrow thinking”.*

## Gwelliannau i'r ddarpariaeth bresennol

- 5.13 Cyfeiriodd y CMA at rai sylwadau oddi wrth y sector gan gynnwys: *“We strongly believe that the current stations on air need Ofcom's attention ... why not get all*



*existing licensees taken care of before considering another round?"* Ategwyd y pwynt hwn gan rai ymatebwyr eraill:

- Ym marn Eden FM dylai holl broblemau technegol y gorsafoedd presennol gael eu hystyried i ddechrau.
- Dadleuai The Radio People y dylai'r holl geisiadau am wella'r ddarpariaeth gael eu hystyried ar yr un pryd er tegwch i bawb.
- Awgrymodd Media Ireland y dylai'r gwaith o ehangu'r gwasanaethau presennol i ardaloedd cyfagos gael ei wneud ar yr un pryd â chynnig trwyddedau newydd, gan fod yr ystyriaethau cynllunio sbectrwm a thechnegol ar gyfer y ddau yn debyg.
- Teimlai Seahaven FM y gallai'r gorsafoedd presennol fod o dan anfantais os bydd y polisi darpariaeth (*coverage policy*) diwygiedig yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gorsafoedd newydd heb wybod beth mae'r gorsafoedd presennol ei angen. Awgrymodd y dylai Ofcom wahodd gorsafoedd presennol i gofrestru eu diddordeb yn gynnar i helpu i osgoi hyn.
- Roedd Belfast FM yn cefnogi gwella'r ddarpariaeth ar gyfer gorsafoedd presennol a'r gwaith cynllunio technegol ar gyfer gwasanaethau DAB ar raddfa fach i ddechrau. Dadleuai fel a ganlyn "*allocating new licences should not have any greater priority than ensuring that existing services have the maximum opportunity for viability and sustainability*".

## **DAB ar raddfa fach**

- 5.14 Rhoddodd nifer o'r ymatebwyr sylwadau ar fater blaenoriaethu trwyddedau analog a digidol, o gofio ein bod yn disgwyl y bydd gwasanaethau DAB ar raddfa fach yn cael eu trwyddedu gennym erbyn 2018. Dywedodd Eden FM "*there is government pressure to move from FM to DAB ... this begs the question as to whether ANY new community stations should be licensed on FM at all?*". Roedd un ymateb a gyflwynwyd yn gyfrinachol yn dweud "*once community DAB proceeds, planning effort for that should be prioritised over the few remaining FM opportunities*".
- 5.15 Roedd ail ymateb cyfrinachol yn annog Ofcom i ystyried dechrau gweithio ar DAB yn syth - nid ar ôl cylch trwyddedu FM arall. Roedd Eden FM yn awgrymu adolygiad technegol ar gyfer gorsafoedd presennol i ddechrau, wedyn cyflwyno DAB ar raddfa fach, ac wedyn gwasanaethau newydd mewn ardaloedd lle mae galw ar hyn o bryd - ond ar DAB ar raddfa fach yn hytrach nag FM.

## **Sylwadau eraill ynghylch blaenoriaethau**

- 5.16 Cyflwynwyd nifer o sylwadau gan randdeiliaid ar y blaenoriaethau ar gyfer ein gwaith i'r dyfodol yn fwy cyffredinol:
- Awgrymodd The Eye y dylai ymestyn gwasanaethau presennol fod yn flaenoriaeth. Hefyd, dadleuai y dylid rhoi trwyddedau am wyth mlynedd yn hytrach na phump.
  - Teimlai Lincs FM Group ei fod yn bwysig nad yw ymrwymadau budd cymdeithasol unigryw radio cymunedol yn cael eu colli dros amser a dywedodd y dylai Ofcom sicrhau bod ganddo adnoddau digonol i reoleiddio'r sector yn iawn.

Teimlai nad oedd digon o eglurder rhwng rhai gweithredwyr cymunedol a gweithrediadau masnachol cysylltiedig.

- Awgrymodd Radio Centre fel a ganlyn *“Ofcom needs to invest more time and resources in improving monitoring and compliance ... to ensure the highest possible quality and delivery of the statutory objectives”*
- Awgrymodd Transplan fel a ganlyn *“priorities should be reviewed on a monthly basis on evidence of demand and published to stakeholders”*.
- Teimlai Radio Scarborough y dylai Ofcom allu cynnig trwyddedau drwy gyfrwng ‘cerdyn gwyllt’ lle gellir gwneud achos arbennig dros hynny.

## Penderfyniad Ofcom

5.17 Ar ôl ystyried yr ymatebion, rydym wedi penderfynu gwneud rhai addasiadau i'n blaenoriaethau arfaethedig:

- Ein blaenoriaeth gyntaf fydd cynnal cylch trwyddedu newydd a fydd yn fyr a phenodol. Bydd hwn blaenoriaethu'r broses o wahodd cwmnïau i ymgeisio mewn lleoliadau nad ydynt yn gorgyffwrdd â gwasanaethau cyfredol. Bydd gwahoddiad i wneud cais am drwyddedau yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r datganiad hwn, gan ddod i ben ddydd Iau 27 Gorffennaf 2017 am 3pm.
- Unwaith y bydd y cyfnod gwahodd ar gyfer y cylch trwyddedu newydd wedi cau, byddwn yn ystyried ceisiadau gan wasanaethau cyfredol am welliannau i'r ddarpariaeth. Ceisiadau oddi wrth orsafoedd sy'n dioddef llawer iawn o ymyriant fydd yn cael y flaenoriaeth uchaf, wedyn ceisiadau oddi wrth orsafoedd sydd â derbyniad gwael yn eu hardal ddarlledu.
- Ar ôl hynny, byddwn yn ystyried ceisiadau i ymestyn yr ardal ddarlledu ar gyfer gwasanaethau presennol.
- Erbyn 2018, rydym yn disgwyl y bydd fframwaith trwyddedu ar waith a fydd yn ein galluogi i ddechrau trwyddedu gwasanaethau DAB ar raddfa fach ac, i baratoi ar gyfer hynny, byddwn yn ymgymryd â gwaith cynllunio technegol cyn dechrau trwyddedu unwaith y bydd y fframwaith ar waith. Bydd blaenoriaeth y gwaith hwn yn cynyddu wrth inni ddynesu at y dyddiad y gall y trwyddedau newydd ar gyfer y gwasanaethau hyn gychwyn.

5.18 O ran estyniadau i drwyddedau, byddwn yn parhau i ystyried ceisiadau oddi wrth drwyddedeion cyfredol am estyniadau i'w trwyddedau cyn gynted ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol. Fel y nodir ym mharagraff 5.5, mae gennym ystod o weithgareddau 'busnes fel arfer' y mae'n rhaid i ni barhau â nhw, a byddwn yn cyflawni'r gweithgareddau hyn ochr yn ochr â'r gwaith a ddisgrifir uchod.

5.19 O ran cyfnodau trwyddedau, mae'r cyfnod 5 mlynedd wedi'i bennu mewn deddfwriaeth a mater i'r llywodraeth yw unrhyw newid.

5.20 O ran ymrwymadau budd cymdeithasol unigryw radio cymunedol, rydym yn cytuno bod budd cymdeithasol yn rhan hanfodol o radio cymunedol. Yn 2016, gwnaethom symleiddio 'Prif Ymrwymadau' gorsafoedd i alluogi gorsafoedd i ymateb i anghenion ac amgylchiadau sy'n newid mewn cymunedau (megis yr arian sydd ar gael, neu bartneriaethau â chyrrff lleol) yn ôl yr angen er mwyn iddynt allu darparu'r buddion mwyaf priodol i'w cymuned darged ar adegau penodol.

- 5.21 Ar gyfer blaenoriaethau lefel uchel, fel y rhai a drafodir yn yr ymgynghoriad hwn, byddwn yn cyhoeddi ein penderfyniad (drwy'r datganiad hwn) i roi sicrwydd i ddarpar ymgeiswyr, ein trwyddedeion a rhanddeiliaid eraill. Ni fyddem yn dymuno adolygu a newid y blaenoriaethau hyn bob mis. Ond, rydym yn ymwybodol o ofynion newidiol y sector, ac rydym yn adolygu blaenoriaethau ein llwyth gwaith yn rheolaidd.
- 5.22 O ran trwyddedau 'cerdyn gwyllt', bydd ein cylch trwyddedu byr a phenodol yr ydym yn ei argymhell yn gyfle i grwpiau sy'n teimlo eu bod wedi colli allan ar gyfle wneud cais am drwydded. O dan y ddeddfwriaeth, mae'n rhaid i Ofcom wahodd cwmnïau i wneud ceisiadau ac nid yw hyn yn addas ar gyfer system ymgeisio drwy 'gerdyn gwyllt'.
- 5.23 Yn olaf, hoffem nodi y gall gorsafoedd sydd ar y rhyngwrwyd yn unig wneud cais am drwyddedau. Mae Ofcom yn cael ceisiadau oddi wrth orsafoedd ar y rhyngwrwyd ar gyfer trwyddedau gwasanaethau rhaglenni DAB (DSPS) a radio cymunedol.